# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Gofal

## Ymchwiliad i Sylweddau Seicoweithredol Newydd

Ym mis Medi 2014, dechreuodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried sylweddau seicoweithredol newydd ("NPS") neu "gyffuriau penfeddwol cyfreithlon," a'r problemau cysylltiedig. Mae'r Pwyllgor wedi gorffen ei ymchwiliad yn awr ac mae wedi ysgrifennu **adroddiad.**

## Y cefndir

### Ymchwiliad i beth oedd hwn?

Mae NPS yn cael eu marchnata'n aml fel cyffuriau cyfreithlon, sy'n fwy diogel na chyffuriau anghyfreithlon, ac sy'n cael eu cynhyrchu mewn labordai a'u gwerthu ar y rhyngrwyd neu mewn siopau arbennig ar y stryd fawr ("head shops"). Mae'r ffordd yma o'u marchnata'n gamarweiniol - gall eu sgil effeithiau fod yr un ddifrifol â sgil effeithiau cyffuriau anghyfreithlon, ac rydych yr un mor debygol o fynd yn gaeth iddynt. Yn aml iawn, maent yn cynnwys olion sylweddau nad yw'n gyfreithlon eu gwerthu na'u cymryd. Cewch ragor o wybodaeth am NPS, gan gynnwys sut i gael help os ydych wedi'u defnyddio nhw, ar wefan **DAN 24/7** .

### Pam benderfynodd y Pwyllgor gynnal yr ymchwiliad hwn?

Penderfynodd y Pwyllgor ymchwilio i'r mater hwn oherwydd bod y nifer sy'n defnyddio NPS wedi codi yng Nhgymru, a llefydd eraill, yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bu farw 60 o bobl yng Nghymru a Lloegr yn 2013 oherwydd NPS. Roedd hyn 15 y cant yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Roedd yr Aelodau yn poeni am y niwed y mae NPS yn ei achosi i iechyd pobl ac i'r gymdeithas, ac roeddent am dynnu sylw at y camau ymarferol y mae angen eu cymryd er mwyn i bobl fedru gwneud penderfyniadau gwybodus am ddefnyddio'r sylweddau yma.

### Sut aeth y Pwyllgor ati i gasglu sylwadau gan bobl ar gyfer yr ymchwiliad?

Defnyddiodd y Pwyllgor nifer o wahanol ffyrdd o ofyn barn pobl am NPS, gan gynnwys:

– gwahodd pobl i **roi sylwadau ar bapur** (daeth 22 o ymatebion i law, a hefyd 7 darn o dystiolaeth ychwanegol tra oedd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal);

– gofyn i'r cyhoedd lenwi holiadur am **NPS** a'u defnydd (aeth 1,072 o bobl o bob rhan o Gymru ati i lenwi'r holiadur);

– gwahodd cynrychiolwyr o'r cyrff a ganlyn i siarad â'r Aelodau mewn **cyfarfodydd swyddogol** yn y Senedd ym Mae Caerdydd:

- **Heddlu Gwent**
- **DrugScope**
- **Sefydliad Angelus**
- **WEDINOS**
- **Cynrychiolwyr y GIG**
- **Cynrychiolwyr llywodraeth leol Cymru**
- **Arolygaeth Carchardai Ei Mawrhydi**
- **Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU**
- **Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynhaliwyd grwpiau ffocws hefyd ym Merthyr Tudful a Wrecsam i glywed gan staff rheng flaen yn uniongyrchol, ac aeth aelodau'r Pwyllgor hefyd i ymweld â phrosiect LOTS, Clwb Ieuenctid Forsythia a DrugAid i siarad â'r rheini sydd wedi defnyddio NPS. Aeth yr aelodau hefyd i bencadlys DAN 24/7, sef llinell gymorth ar gyfer Cymru gyfan i helpu pobl sy'n camddefnyddio sylweddau. Mae **lluniau o Wrecsam** a **Merthyr, fideos** a **blog** am yr ymweliadau i gyd wedi'u cyhoeddi i chi eu gweld. Defnyddiodd y Pwyllgor **storify** hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt yr ymchwiliad.

## Beth ddywedodd pobl wrth y Pwyllgor a beth y mae wedi'i wneud?

| Beth ddywedodd pobl wrth y Pwyllgor | Beth ddywedodd y Pwyllgor yn ei adroddiad |
|---|---|
| **Mae angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r niwed y mae NPS yn ei wneud i'r rhai sy'n eu defnyddio. Mae'n bosibl gwneud hynny drwy:**<br><br>**– redeg ymgyrchoedd penodol yn y cyfryngau;**<br><br>**– gwella addysg mewn ysgolion;**<br><br>**– codi ymwybyddiaeth rhieni o NPS a'r niwed y gallant ei achosi;**<br><br>**– gwneud yn siŵr bod staff rheng flaen mewn meysydd fel gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thai, yn gwybod am NPS a'u heffaith bosibl.** | Dyma argymhellion y Pwyllgor :<br><br>– Dylid ailedrych ar fyrder ar y rhaglen addysg cyffuriau mewn ysgolion i'w gwella ac i sicrhau cysondeb drwy Gymru, ac i wneud yn siŵr bod y rhai sy'n ei chyflwyno wedi cael yr hyfforddiant a'r cymwysterau priodol.<br><br>– Mae angen gwneud mwy i addysgu rhieni am NPS, er mwyn iddynt fedru rhoi gwybodaeth gywir i'w plant a'u helpu i wneud penderfyniadau gwybodus. I wneud hyn, mae angen paratoi taflenni, cyrsiau hyfforddi ac ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ar gyfer rhieni'n benodol.<br><br>– Dylid datblygu rhaglen hyfforddi genedlaethol ar NPS i'r holl staff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus (ee meddygon, nyrsys, yr heddlu, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion carchar etc) |
| **Mae'r term 'cyffuriau penfeddwol anghyfreithlon' yn gwbl anaddas. Mae'n awgrymu ei bod yn ddiogel ac yn gyfreithlon defnyddio'r cyffuriau hyn. Mewn gwirionedd, maent yn aml yn niweidiol iawn ac yn cynnwys sylweddau anghyfreithlon.** | Mae'r Pwyllgor wedi argymell y dylai ymgyrch Llywodraeth Cymru yn 2015 i godi ymwybyddiaeth o cyhoedd o NPS:<br><br>– gynnwys gwybodaeth a dargedir at bobl ifanc;<br><br>– canolbwyntio'n bennaf ar y cyfryngau ac ysgolion;<br><br>– pwysleisio nad yw 'cyfreithlon' yn golygu 'diogel'.<br><br>Mae'r Pwyllgor hefyd wedi argymell y dylai'r rhai sy'n gweithio yn y maes hwn, gan gynnwys y cyfryngau, roi'r gorau i ddefnyddio'r term "cyffuriau pendfeddwol cyfreithlon" gan ei fod yn gamarweiniol iawn. |

| | |
|---|---|
| **Dylai Llywodraeth y DU, sy'n gyfrifol am y polisi cyffuriau, wahardd cyflenwi NPS, a gwneud y siopau arbennig ar y stryd fawr, a'r stondinau marchnad sy'n eu gwerthu, yn anghyfreithlon. Ni ddylid rhoi record troseddol i'r rhai sy'n eu defnyddio – gallai hynny wneud pethau'n waeth i ddefnyddwr sy'n ceisio ailafael yn eu bywydau.** | Mae'r Pwyllgor wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i gymryd camau brys i wahardd cyflenwi NPS. Mae'r Pwyllgor wedi pwysleisio, fodd bynnag, na fydd yn bosibl datrys y broblem yn gyfan gwbl drwy newid y gyfraith - mae'r un mor bwysig gwella addysg, codi ymwybyddiaeth a gwella triniaethau i wneud yn siŵr bod y nifer sy'n defnyddio NPS yng Nghymru yn gostwng. |
| **Mae nifer y carcharorion sy'n defnyddio NPS yn debygol o fod yn broblem sylweddol yng Nghymru os yw carchardai Cymru yn dilyn y patrwm â charchardai Lloegr.** | Mae'r Pwyllgor wedi argymell bod angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wneud mwy i ddeall:<br>– pam mae NPD wedi datblygu'n broblem yng ngharchardai Lloegr;<br>– beth y mae hynny'n debygol o'i olygu i Gymru;<br>– pa gamau y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem.<br>Mae'r Pwyllgor wedi argymell bod carcharorion a staff y carchardai'n cael hyfforddiant penodol am y niwed y mae NPS yn ei achosi. |
| **Nid ydym yn gwybod digon am y nifer sy'n cymryd NPS a'r niwed y gallant ei achosi.** | Mae'r Pwyllgor wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gwledydd eraill y DU i benderfynu ar y ffordd orau o fesur faint sy'n defnyddio NPS a pha wasanaethau sydd eu hangen i helpu'r rhai sy'n eu defnyddio neu'n ystyried eu defnyddio. |
| **Nid yw'r gwasanaethau sydd ar gael i drin y rhai sy'n defnyddio NPS bob amser yn ddigon hyblyg neu hygyrch.** | Mae'r Pwyllgor wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i addasu'r gwasanaethau presennol i hepu'r rhai sy'n defnyddio NPS. Mae'r Pwyllgor yn meddwl:<br>– y dylai hyn gynnwys rhagor o wasanaethau galw heibio;<br>– y byddai'n ddefnyddiol pe bai'n bosibl cynnig gwasanaethau i drin y rhai sy'n defnyddio cyffuriau yn yr un adeilad â gwasanaethau eraill, er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch ac er mwyn lleihau unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â'u defnyddio. |

## Beth fydd Pwyllgor yn ei wneud nesaf?

Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru ymateb i adroddiad y Pwyllgor chwe wythnos ar ôl ei gyhoeddi (hynny yw, erbyn diwedd mis Mai 2015). Ar ôl cael yr ymateb, bydd y Pwyllgor yn gofyn i holl Aelodau'r Cynulliad ei drafod yn y **Siambr**, sef prif siambr drafod y Cynulliad. Bydd hyn yn gyfle i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog am y camau a gaiff eu cymryd i roi'r 14 o argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor ar waith ac i dynnu mwy o sylw at y pwnc pwysig hwn.

Byddai'r Pwyllgor yn hoffi diolch i bawb a dreuliodd amser yn rhannu eu profiadau ym maes NPS ac am eu sylwadau ynghylch y camau y mae angen eu cymryd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r niwed y gallant ei achosi. Er mai'r cyfan y gall y Pwyllgor ei hun ei wneud yw argymell newidiadau, yn hytrach na gwneud y newidiadau ei hun, bydd yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru ac eraill i roi'r camau y mae wedi'u nodi yn ei adroddiad ar waith.

## Ffeithiau a ffigurau allweddol

– 22 consultation responses

– 1072 survey responses

– 8 evidence sessions with 23 witnesses

– 1 factual briefing from Gwent Police

– 14 recommendations in the report

– 2 focus groups:

    – 20 participants in south Wales

    – 17 participants in north Wales

– 4 regional visits to service users and providers

## Sut i ddysgu rhagor am y Pwyllgor

I ddysgu rhagor am y Pwyllgor a'i waith, dewch i'r wefan **www.cynulliad.cymru/seneddhealth** neu dilynwch **@seneddhealth** ar Twitter.